

Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19

---

Hydref 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid

# **Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19**

---

Hydref 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC (Cadeirydd)**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**Mark Reckless AC**  
UKIP Cymru  
Dwyrain De Cymru



**David Rees AC**  
Llafur Cymru  
Aberafan

---

# Cynnwys

Argymhellion a Chasgliadau .....	5
01. Cyflwyniad.....	7
02. Blaenoriaethau buddsoddi, tanwariant a phenderfyniadau ynghylch taliadau .....	11
03. Newidiadau staffio.....	16



# 01. Argymhellion a Chasgliadau

**Argymhelliad 1.** Gofynnwyd am gyllideb o 3.1 y cant ar gyfer Gwasanaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, sy'n uwch na chwyddiant a'r cynnydd yng ngrant bloc Cymru. O gofio'r toriadau parhaus a ddisgwylir ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn seliedig ar y ffigurau dangosol a ddarparwyd yn nogfennaeth y Gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor yn argymell na ddylai cyllideb y Comisiwn, yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, fod yn uwch nag unrhyw newidiadau i grant bloc Cymru. .... Tudalen 9

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r gyllideb derfynol i ddileu'r cais i neilltuo £700,000 er mwyn gwneud cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd. Os bydd angen bwrw ymlaen â'r cais, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Comisiwn ofyn am yr arian drwy gyllideb atodol, neu mewn cyllideb yn y dyfodol.

.....Tudalen 9

**Argymhelliad 3.** Os bydd y Comisiwn yn dewis defnyddio cyllideb atodol i ddechrau'r gwaith cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn, cyn cyflwyno cynnig cyllideb atodol, gyflwyno'r Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 20.32 i'r Pwyllgor i'w ystyried cyn iddo gael ei gyflwyno. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam y mae angen adeilad newydd o ran anghenion y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol, a sut y byddai'n darparu ar gyfer cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau Cynulliad. ....Tudalen 10

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad gymryd camau i sicrhau bod ei benderfyniadau o ran gwariant yn cael eu cyfleu i grwpiau'r pleidiau ac yn cael eu trafod yn briodol â hwy. .... Tudalen 10

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn baratoi diweddariad yn ystod y flwyddyn (cyn diwedd pob blwyddyn galendr) ar danwariant tebygol y Bwrdd Taliadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiectau y bwriedir eu hariannu drwy ddefnyddio'r tanwariant hwn.

.....Tudalen 15

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn ystyried y blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thanwariant y Bwrdd Taliadau er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu'n uniongyrchol y gwasanaethau sy'n cefnogi'r Aelodau..... Tudalen 15

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir, ond cydnabyddir bod gan y Cynulliad Brif Weithredwr a Chlerc newydd ac mai cyllideb 2018/19 fydd ei chyllideb gyntaf fel Swyddog Cyfrifyddu, ac felly mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb. .... Tudalen 15

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu'r adolygiad capasiti sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd fel papur i'r Pwyllgor. Ar y cam hwn, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion am y gwasanaethau lle y mae nifer y staff wedi cynyddu a'r rhesymau am y cynnydd hwn..... Tudalen 18

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried yr adolygiad capasiti ochr yn ochr ag ymarfer meincnodi sy'n cynnwys seneddau eraill, gan gynnwys seneddau sydd â swyddogaeth ddwyieithog..... Tudalen 18

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Cynulliad barhau fel y mae yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, er mwyn atal cynnydd ychwanegol mewn adnoddau staffio a rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr a Chlerc newydd ystyried canlyniad yr adolygiad capasiti a sut y gellir defnyddio'r staff presennol yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r Comisiwn. ....Tudalen 18

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â thaliadau a lwfansau Aelodau. ....Tudalen 15



## 02. Cyflwyniad

### Cefndir

---

1. Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

“Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.”<sup>1</sup>

---

2. Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

“Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymhell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn.”<sup>2</sup>

---

3. Trafododd y Pwyllgor **Gyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018-19** yn ei gyfarfod ar **5 Hydref 2017**, gan glywed tystiolaeth gan:

- Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a
- Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid.

### Cynnydd yng nghyllidebau'r Cynulliad yn y gorffennol

---

4. Cytunodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad y byddai Cyllideb Derfynol Comisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn") 2012-13 yn cynnwys rhaglen fuddsoddi tair blynedd o gynnydd uwch na chwyddiant i gefnogi'r gwaith o gynyddu capasiti ar gyfer datganoli pwerau ychwanegol, ond tynnwyd sylw at y disgwyliad na ddylai unrhyw gynnydd, yn 2015-16 na'r blynyddoedd dilynol, fod yn fwy na'r newid yng ngrant bloc Cymru.

5. Cyfanswm cyllideb arfaethedig Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19 yw £56.8 miliwn, ac mae'n cynnwys:

- cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, heb gynnwys cyllideb wedi'i neilltuo, dibrisiant a gwariant a reolir yn flynyddol, o £35.5 miliwn, o gymharu â £34.4 miliwn, cynnydd o 3.1 y cant;
- cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys cyllideb wedi'i neilltuo, dibrisiant a gwariant a reolir yn flynyddol, o £40.6 miliwn, o gymharu â £38.2 miliwn, cynnydd o 6.2 y cant; a

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Rheol Sefydlog 20.13

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), Rheol Sefydlog 20.14

- chyllideb ar gyfer **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau**<sup>3</sup> Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sef £16.2 miliwn, sef cynnydd o 4.3 y cant o gymharu â chyllideb 2017-18.

6. Caiff y gyllideb ar gyfer cyflogau Aelodau a'r costau cysylltiedig eu cyfrifo yn unol â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ac felly nid ydynt yn cael eu gosod gan y Comisiwn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn dewis tynnu'r uchafswm arian i lawr ar gyfer pob Aelod/plaid er mwyn cyfateb â'r uchafswm a nodir yn y penderfyniad.

7. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd o £1.3 miliwn mewn gwariant wedi'i neilltuo a gwariant nad yw'n arian parod. Amcangyfrifir y bydd costau dibrisiant ac amorteiddio £200,000 yn is eleni (o gymharu â gostyngiad o £400,000 ar gyfer 2017-18). Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £700,000 ar gyfer llety newydd yn y Cynulliad a chynnydd o £800,000 ers y llynedd ar gyfer costau cronfa bensynau'r Aelodau i £2 filiwn.

8. Wrth gefnogi'r cais am fwy o arian, eglurodd Suzy Davies AC:

“Our starting position is always the strategic goals of the Assembly, which you’ll remember from before: providing outstanding parliamentary support to engage with all the people of Wales and champion the Assembly, and, of course, to use resources wisely. We’re also mindful, of course, of the statutory duty of the Commission to provide staff, property and services to do the work that the Assembly has decided it wants to do. Of course, what it’s doing in the fifth Assembly is considerably wider than that even in the fourth Assembly, wasn’t it?

... There are a number of things. The responsibilities that are kind of thrust upon us, if you like, include whatever Brexit is going to show—we’re already seeing increasing costs on the back of that. The reserved-powers model—of course, that’s going to oblige us to take certain activities. Then there are the opportunities that are presented to us by the Wales Act 2017 ... The strategic goals—if you consider things like the youth parliament, the Assembly’s already instructed the Commission to conduct feasibility work on the youth parliament. The opportunities that the digital changes could present for us.”<sup>4</sup>

### Cynlluniau cyllidebol tair blynedd

9. Fel sy'n ofynnol dan Reol Sefydlog 20.13, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys yr arian a'r adnoddau y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer 2018-19 a'r symiau arfaethedig a gynigir ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.<sup>5</sup>

	2017-18 £000	2018-19 £000	2019-20 £000	2020-21 £000
Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn	£53,742	£56,788	£57,114	£58,640

Ffynhonnell: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19

<sup>3</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Penderfyniad

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraffau 12 a 14

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, Rheol Sefydlog 20.13

**10.** Mae'r symiau arfaethedig ar gyfer 2019-20 a 2020-21 ar gyfer cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn wedi eu gosod i fod yn sefydlog mewn termau real, yn seiliedig ar amcangyfrifon y datchwyddydd CMC ym mis Mawrth 2017. Nid oes ffigurau ar gyfer y cynnydd yng ngrant bloc Cymru dros y cyfnod hwn yn ddigon manwl i'w cymharu.

**11.** O ran cynllunio ar gyfer y dyfodol, dywedodd Suzy Davies AC:

“While we’ve managed to come in with the figure that we’ve indicated for this year, that may not be the case for future years.”<sup>6</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**12.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol na fwriedir cyhoeddi Cyllideb y DU tan fis Tachwedd 2017, ond mae Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd dyraniadau cyllideb refeniw yn cynyddu 1.1 y cant o Gyllideb Atodol Mehefin 2017 i gynlluniau 2018-19.<sup>7</sup> At hynny, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol y DU i leihau gwariant cyhoeddus gan £3.5 biliwn erbyn 2019-20.<sup>8</sup> Er nad yw'n glir eto a gaiff yr ymrwymiad hwnnw ei weithredu gan Ganghellor y Trysorlys yn Natganiad yr Hydref, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyllideb ddrafft y Comisiwn yn uwch na'r amcangyfrif diweddaraf o'r newid i grant bloc Cymru ar gyfer 2018-19.

**13.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gan y Comisiwn nifer o gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer gweddill y Pumed Cynulliad, ond ar adeg pan fo llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn wynebu toriadau helaeth a pharhaus mewn termau real, cred ei bod yn anodd cyfiawnhau unrhyw gynnydd yng ngwariant y Cynulliad. Trafodir blaenoriaethau'r Comisiwn yn fanwl ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn, ond o ran adeilad posibl newydd, cred y Pwyllgor fod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn arbennig o wan.

**14.** Wrth ystyried y gyllideb ddrafft hon, mae wedi dod yn amlwg nad yw grwpiau'r pleidiau'n cael gwybod am y penderfyniadau a wneir gan Gomisiynwyr y Cynulliad bob amser ac mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle na fydd barn un o bwyllgorau trawsbleidiol y Cynulliad o reidrwydd yn cyd-fynd â barn y Comisiwn trawsbleidiol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

**Argymhelliaid 1.** Gofynnwyd am gyllideb o 3.1 y cant ar gyfer Gwasanaethau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, sy'n uwch na chwyddiant a'r cynnydd yng ngrant bloc Cymru. O gofio'r toriadau parhaus a ddisgwyllir ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn seiliedig ar y ffigurau dangosol a ddarparwyd yn nogfennaeth y Gyllideb ddrafft, mae'r Pwyllgor yn argymhell na ddylai cyllideb y Comisiwn, yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn, fod yn uwch nag unrhyw newidiadau i grant bloc Cymru.

**Argymhelliaid 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r gyllideb derfynol i ddileu'r cais i neilltuo £700,000 er mwyn gwneud cais cynllunio ar gyfer adeilad newydd. Os bydd angen bwrw ymlaen â'r cais, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Comisiwn ofyn am yr arian drwy gyllideb atodol, neu mewn cyllideb yn y dyfodol.

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 10

<sup>7</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cyllid, 5 Hydref 2017

<sup>8</sup> Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Datganiad Ysgrifenedig, y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2018-19

**Argymhelliad 3.** Os bydd y Comisiwn yn dewis defnyddio cyllideb atodol i ddechrau'r gwaith cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn, cyn cyflwyno cynnig cyllideb atodol, gyflwyno'r Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 20.32 i'r Pwyllgor i'w ystyried cyn iddo gael ei gyflwyno. Byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam y mae angen adeilad newydd o ran anghenion y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol, a sut y byddai'n darparu ar gyfer cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau Cynulliad.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad gymryd camau i sicrhau bod ei benderfyniadau o ran gwariant yn cael eu cyfleu i grwpiau'r pleidiau ac yn cael eu trafod yn briodol â hwy.

## 03. Blaenoriaethau buddsoddi, tanwariant a phenderfyniadau ynghylch taliadau

### Tanwariant y Bwrdd Taliadau

15. Yn 2016-17, roedd tanwariant o £1.7 miliwn o ran adnoddau yn ymwneud â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau.<sup>9</sup> Ym mis Mehefin 2017, dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrth y Pwyllgor yr amcangyfrifwyd y byddai tanwariant o £1.050 miliwn ar gyfer 2017-18.<sup>10</sup>

16. Mae tabl 2<sup>11</sup> yn dangos tanwariant o ran adnoddau yn ymwneud â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau ar gyfer pob blwyddyn ers 2011-12 (rhagolygon yw'r ffigurau ar gyfer 2017-18 a 2018-19).

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18 <sup>12</sup>	2018-19 <sup>13</sup>	£'000
<b>Blwyddyn y Cynulliad</b>	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	1af	2il	3ydd	
<b>Y gyllideb o gymharu ag alldro</b>	881	562	439	775	1,047	1,705	1,050	600	

17. Mewn perthynas â'r tanwariant a ragwelir ar gyfer 2018-1919, nodir yn y gyllideb ddrafft:

“Yn hanesyddol, mae'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau hefyd wedi rhyddhau adnoddau heb eu defnyddio, sydd ar gael i'r Comisiwn fuddsoddi mewn gwasanaethau Aelodau neu wasanaethau eraill. Nid yw'n bosibl rhagfynegi'n gywir beth yw'r swm hwn a aildefnyddiwyd. Byddai amcangyfrif darbodus, yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, yn awgrymu y gallai £600,000 ddod ar gael.”<sup>14</sup>

18. Wrth egluro'r tanwariant a ragwelir, dywedodd Manon Antoniazzi:

“... the remuneration board determination figure is based on historical trends. So, if you look at expenditure during the last Assembly, the third year was the year in which most spending was scored against that budget... So, that, we believe, is an appropriate estimate.”<sup>15</sup>

### Cyllid ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi

19. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn amcangyfrif y gellid trefnu bod £1.9 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi, a fyddai'n cynnwys £600,000 o danwariant y Bwrdd Taliadau, £800,000 o gyllidebau gweithredol (staffio), a chyllideb gyfalaf o £500,000.

20. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys manylion am y blaenoriaethau buddsoddi y gellid eu hariannu pe bai'r arian hwn ar gael. Mae hyn yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth a ganlyn:

<sup>9</sup> Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016-17

<sup>10</sup> Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2017

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon 2011-12 i 2016-17, Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2017 a Chyllideb 2018-19

<sup>12</sup> Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2017

<sup>13</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>14</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 149

- y gwasanaeth rheoli cyfleusterau ac ystadau;
- cyfleusterau dosbarthu a sganio oddi ar y safle;
- TGCh;
- Senedd Ieuencid;
- rhaglen Fy Senedd; a
- gwella newyddion digidol a gwybodaeth gyhoeddus.<sup>16</sup>

**21.** Esboniodd Manon Antoniazzi i'r Pwyllgor sut roedd y Comisiwn yn rhagweld y câi'r blaenoriaethau hyn eu hariannu:

---

“...What we are doing is anticipating savings that we’ll be making through the staffing budget [correction: the budget set], through churn and so forth, and that is the money that we will be using to address the spending priorities in the course of the year. So, it’s going to have to be very, very tightly managed to undertake all the work that we need to do in the course of the year.”<sup>17</sup>

---

**22.** Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor, esboniodd Suzy Davies AC sut yr eir ati i benderfynu ynghylch blaenoriaethau buddsoddi:

---

“All decisions ... are measured against a number of things: firstly, the strategic goals and secondly, those that are obligatory, and then opportunities that have arisen and decisions that have been made for, I don’t know, a more digital assembly or a youth parliament. But the process it’s gone through is quite considerable. The ideas have to come from the individual directorates to say, ‘This is what our programme needs in order to develop’.... a really, really strong and clear business case has to be made. One of the changes that’s been made since we were with you last is that, as Commissioners, we’ve asked for a sort of closer oversight—not oversight, but a clearer reporting mechanism between the IRB and the Commission, so we can see the trend of the decisions that they’re making. I can tell, with another hat on, that the auditing of that process proves that it is indeed a very strong process. You don’t just get through the IRB. You really, really have to fight your corner. Then the bigger decisions come before the Commission anyway, where they’re given another run through the wringer.”<sup>18</sup>

---

## Heriau yn y dyfodol

**23.** Mae'r gyllideb ddrafft yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu Comisiwn y Cynulliad, gan gynnwys:

- gadael yr UE a newid cyfansoddiadol;
- adeiladu ar gyfer y dyfodol;
- diwygio'r Cynulliad;

---

<sup>16</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>17</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 39

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 132

- enw newydd; a
- manteisio ar dechnoleg i drawsnewid y drefn o ddarparu gwasanaethau.

**24.** O ran “adeiladu ar gyfer y dyfodol”, mae’r gyllideb ddrafft yn cynnwys darpariaeth sy’n neilltuo cyllideb o £700,000 i frw ymlaen â cheisiadau cynllunio ar gyfer adeilad newydd posibl. Mae’r gyllideb ddrafft yn nodi bod Tŷ Hywel “yn dod yn agos i fod yn llawn” a:

---

“Gyda rhagor o bwerau datganoledig, ac wrth i’r Cynulliad symud i gyfnod pan nad yw’r DU yn yr Undeb Ewropeaidd mwyach, mae mwy o angen nag erioed am Ystâd sy’n gwella proffil Cymru yn rhyngwladol, yn annog ymgysylltu â’r cyhoedd ac sy’n gwneud gwaith y Senedd yn fwy hygyrch i ddinasyddion Cymru.”<sup>19</sup>

---

**25.** Yn eu tystiolaeth, eglurodd cynrychiolwyr y Comisiwn fod adeilad Tŷ Hywel yn llawn a bod angen rhagor o le ar sail yr amgylchiadau presennol. Aethant ymlaen i roi esboniad pellach pam y gallai fod angen adeilad newydd yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys yr angen posibl i greu lle ar gyfer:

- cyfleuster archif;
- rhagor o le i Lywodraeth Cymru; a
- rhagor o Aelodau Cynulliad.<sup>20</sup>

**26.** Wrth esbonio’r cais am arian ar gyfer adeilad newydd posibl, dywedodd Manon Antoniazzi wrth y Pwyllgor:

---

“This is a substantial sum—£700,000—but we may not need it. We know that we may need it because if the Commission makes a decision to go ahead with the new building, that money will need to be invested in the coming financial year to prepare the planning application. However, if there’s a decision not to proceed, we won’t need it. So, I’m sorry if that hasn’t been explained fully in the budget document. What we were trying to do was explain that if there were a decision to move ahead, we would draw that money down. Otherwise, we will not draw it down, so it won’t be money that will be available for us to reallocate to anything else.”<sup>21</sup>

---

**27.** Yn ogystal, parhaodd Manon Antoniazzi i esbonio’r rhesymeg ar gyfer adeilad newydd posibl:

---

“I’m confident that the Commission will only take this decision to proceed if it is the most effective [correction: most cost-effective] option for the Assembly in the long term to look at. So far, the analysis is consistently showing that coming to this kind of deal is the most cost-effective solution in the long term, as opposed to leasing additional building space and so forth. It has to be borne in mind that Tŷ Hywel doesn’t revert to Assembly ownership at the end of its lease term, and so, there’s a responsibility on us to look ahead in that way. Yes, this is a cost related to planning permission. Then there will, a few years after that, be a fit-out cost, and then, there’ll probably be an annual rental charge.

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 59

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 52

That probably takes us well into the next Assembly, but as I say, we are flagging it at this point because, if we are to proceed, and if we are to get the most favourable deal for the public purse, we may need to move in the next financial year, and we wish to give ourselves as much time to spend that money as responsibly and effectively as possible.”<sup>22</sup>

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**28.** Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch tanwariant y Bwrdd Taliadau. O ganlyniad i'r cyngor hwn a'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn a wnaed ym mis Mehefin, gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Comisiwn wedi ystyried yr argymhellion hyn, ac mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys rhagolwg tanwariant ar gyfer y flwyddyn a manylion am sut y gellir dyrannu tanwariant y Bwrdd Taliadau ac arbedion eraill yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dal i greu bod cynnwys y tanwariant hwn a ragwelir yn lleihau tryloywder cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r Comisiwn.

**29.** O ran cyllido'r blaenoriaethau buddsoddi hyn, mae'r Pwyllgor yn anghyfforddus o hyd bod prif gyllideb y Comisiwn yn dibynnu ar ragamcan o danwariant i ariannu meysydd gwaith blaenoriaeth, yn enwedig gan fod rhai o'r meysydd hyn yn cael eu hystyried yn rhai "gorfodol". Mae'r Pwyllgor yn gofyn pam mae gofynion gorfodol yn cael eu hariannu o danwariant posibl yn hytrach na'u cynnwys yn sicr yn y brif gyllideb, ac mae'n parhau'n bryderus nad yw'r dull hwn o gyllidebu yn dryloyw nac yn eglur. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn ymdrin â hyn, er mwyn cadarnhau a yw'r Comisiwn yn paratoi ei gyllideb yn y ffordd fwyaf tryloyw ac effeithiol.

**30.** At hynny, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y tanwariant yn ystod y blynyddoedd cyfatebol yn y Pedwerydd Cynulliad ac yn nodi bod y tanwariant y rhagwelir y bydd ar gael yn 2018-19 yn debygol o fod llawer yn is nag yn y blynyddoedd diwethaf, a gallai hyn olygu bod llai o arian ychwanegol ar gael i'r Comisiwn ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi nag yn 2016-17 a 2017-18.

**31.** Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r dystiolaeth a glywodd fod y Comisiwn o'r farn bod angen adeilad newydd, beth bynnag fydd canlyniad gwaith y Panel Arbenigol a sefydlwyd ddechrau 2017 i gynghori ar faterion yn ymwneud â diwygio'r Cynulliad, gan gynnwys nifer yr Aelodau Cynulliad. Nid yw'r Aelodau yn deall yn glir sut y bydd gwaith y Panel Arbenigol, yn enwedig o ran unrhyw gynnydd posibl yn nifer yr Aelodau Cynulliad, yn llywio'r cynlluniau ar gyfer adeilad newydd arfaethedig.

**32.** At hynny, nid yw'n glir i'r Pwyllgor sut y mae'r Comisiwn yn cynllunio ar gyfer newidiadau posibl yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor wedi nodi y gwariwyd £1.9 miliwn yn 2016-17 a 2017-18<sup>23</sup> i adnewyddu llawr gwaelod Tŷ Hywel, gan gynnwys darparu ystafell bwyllgor ychwanegol, pan fo'n amlwg bellach y gellir adeiladu adeilad newydd. Cyn i adeilad newydd posibl gael ei godi, mae'r Pwyllgor yn gofyn pam na chafodd ateb tymor byr, llai costus ei weithredu, a allai fod wedi cynnwys ystafelloedd pwyllgor ychwanegol.

**33.** Mae'r Pwyllgor o'r farn nad oedd y dystiolaeth a gafodd ynghylch y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yn ddigon clir. Er ei fod yn amlwg bod Tŷ Hywel yn llawn erbyn hyn, mae'n anodd i'r Aelodau nodi sut y bydd newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar benderfyniad ar gyfer adeilad newydd. At hynny, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn nodi bod angen rhagor o le ar Lywodraeth Cymru ar ystâd Bae Caerdydd, ond nid oedd y manylion yn glir ac nid oedd y Pwyllgor yn sicr sut y mae gofynion

---

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 71

<sup>23</sup> [Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mehefin 2017](#)



Llywodraeth Cymru yn effeithio ar y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd, a pha rwymedigaethau statudol sydd gan y Comisiwn i ddarparu lle ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad byr i gadarnhau sut y mae seneddau eraill, yn y DU ac yn ehangach, yn cyllidebu ar gyfer gwariant yn ymwneud â thaliadau a lwfansau Aelodau.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn baratoi diweddariad yn ystod y flwyddyn (cyn diwedd pob blwyddyn galendr) ar danwariant tebygol y Bwrdd Taliadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiectau y bwriedir eu hariannu drwy ddefnyddio'r tanwariant hwn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiwn ystyried y blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â thanwariant y Bwrdd Taliadau er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu'n uniongyrchol y gwasanaethau sy'n cefnogi'r Aelodau.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn parhau'n bryderus am dryloywder y gwaith o gyllidebu ar gyfer tanwariant a ragwelir, ond cydnabyddir bod gan y Cynulliad Brif Weithredwr a Chlerc newydd ac mai cyllideb 2018/19 fydd ei chyllideb gyntaf fel Swyddog Cyfrifyddu, ac felly mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif sut yr eir ati i benderfynu ynghylch y gyllideb.

## 04. Newidiadau staffio

**34.** Roedd cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18 yn nodi ei fod yn darparu cyllid ar gyfer 446 o swyddi.<sup>24</sup> Mae Cyllideb Ddrafft 2018-19 yn nodi bod 452 o staff cywerth ag amser llawn a 18 o swyddi gwag ar hyn o bryd.<sup>25</sup> Mae'r Comisiwn wrthi'n trafod cytundeb cyflog ar gyfer 2018-19. Mae Cyllideb ddrafft 2018-19 yn disgrifio sut y cynllunnir capasiti staff ac yn egluro'r rhesymeg dros dwf diweddar:

“Mae ymarfer cynllunio capasiti bob dwy flynedd yn gofyn i wasanaethau asesu eu staff a sgiliau presennol yn erbyn y blaenoriaethau gwaith sydd eu hangen arnynt i gyflawni, yn ogystal â nodi lle gellir cyfarwyddo adnoddau mewn mannau eraill ar gyfer anghenion sy'n dod i'r amlwg a gwneud y gorau o allbwn cynhyrchiol ein staff.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd cyson yn nifer y staff sydd ei hangen ar y Comisiwn i ateb galw cynyddol y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Cynulliad ei hun yn craffu ar y broses hon yn drylwyr bob blwyddyn. Mae'r gwaith craffu hwnnw, ynghyd â'r tryloywder o ddydd i ddydd a pha mor agos mae cynifer o wasanaethau'r Comisiwn i Aelodau a phwyllgorau yn golygu bod y Comisiwn yn hyderus bod Aelodau yn deall unrhyw estyniad ac y caiff ei wneud gyda'u cymorth.”<sup>26</sup>

**35.** Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor gyda'r Comisiwn ym mis Mehefin 2017, nododd y Comisiwn fod nifer y staff wedi cynyddu yn ystod 2017-18 a byddai'r effaith lawn yn cael ei hadlewyrchu yng nghyllideb 2018-19:

“But the increase in staff that we've seen ... hits us for a part of the year this year and part of the year last year, but, next year, the budget that will be coming to you in October will be reflecting a full year of additional staff in 2018-19. So, there are expectations that our budget request now for 2018-19 will reflect the additional pressures on us and the additional staffing numbers that we require.”<sup>27</sup>

**36.** Mae dogfen y gyllideb ddrafft yn nodi bod y Comisiwn wedi gofyn i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gapasiti er mwyn llywio trafodaethau yn y dyfodol am yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn, gan nodi:

“Bydd yr adolygiad yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r modd y caiff adnoddau staff eu defnyddio ar hyn o bryd, o'r pwysau y mae'r gwahanol dimau'n eu hwynebu a'r arbedion y gellid eu sicrhau wrth barhau i weithio'n effeithiol. Bydd yr adolygiad yn mynd rhagddo ar y cyd â'r broses o bennu cyllideb 2018-19, yn cynorthwyo i benderfynu sut i flaenoriaethu gwariant yn

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb 2017-18, Tachwedd 2016

<sup>25</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>27</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Mehefin 2017, paragraff 102

ystod y flwyddyn honno, ac yn pennu llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd wedyn. Bydd y Comisiwn yn trafod y casgliadau tua diwedd 2017.”<sup>28</sup>

**37.** O ran yr adolygiad capasiti a'i rôl newydd fel Prif Weithredwr, dywedodd Manon Antoniazzi:

“What happened when I arrived was that it became clear that we needed to take a bit of a step back and review the capacity plans that had happened in the previous year. This felt like the right thing to do, and, indeed, the Commission [correction: the Presiding Officer] actually commissioned me to do that in a formal way. So, as is mentioned in the budget document, we have a time-limited but thorough staff review taking place at the moment. We're engaging with all the staff to try and establish a shared understanding of how we've reached the resource allocation to staff that we have, and to look at ways in which we could possibly do things differently, so that we can manage within what is now quite a tight financial envelope, and continue to provide excellent services to the Assembly as it faces these significant new challenges. So, there is a review under way.”<sup>29</sup>

**38.** Yn ogystal â gofyn am gynnydd yn y gyllideb staffio, mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn cyfeirio at amcangyfrif o arbedion o £800,000 yn ystod y flwyddyn i'w gwneud o'r gyllideb weithredol. Eglurodd Manon Antoniazzi:

“...£800,000 is our best estimate at the moment of savings on our operational budget. So, that's not just commission staffing, but other projects and contracts and so forth as well.”<sup>30</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**39.** Er bod y gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer cynnydd sylweddol mewn staff o gymharu â 2017-18, mae'r Pwyllgor yn teimlo nad oes llawer o fanylion ynghylch lle y byddai swyddi ychwanegol yn cael eu creu, na ph'un a fyddai cyfanswm y staff yn cynyddu. Mae tystiolaeth o waith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn yn awgrymu y bydd cyfran o'r cynnydd yn sgil recriwtio staff ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond cred y Pwyllgor fod angen rhagor o wybodaeth i esbonio'r cais am staff ychwanegol y tu hwnt i'r nifer bresennol.

**40.** Er bod cyllideb y Comisiwn yn cynnwys £1.9 miliwn yn fwy ar gyfer staffio nag oedd yng nghyllideb 2017-18, rhagwelir arbediad yn y gyllideb weithredol o £800,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r adolygiad capasiti, ond mae'n nodi na chyflwynir adroddiad tan ar ôl y bleidlais ynghylch y gyllideb, ac felly mae'n ansicr a oedd yr adolygiad hwn yn gysylltiedig â'r amcangyfrif o arbedion gweithredol sylweddol yn ystod y flwyddyn a nodir yn y gyllideb.

**41.** Wrth ystyried elfennau'r gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â staffio, mae'r Pwyllgor yn nodi yr oedd y Cynulliad yn cyflogi 448 o staff cyfwerth ag amser llawn yn ar 31 Mawrth 2017, gan gynnwys staff ar secondiad a staff asiantaeth, yn ôl Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynulliad 2016-17.<sup>31</sup> Cymharodd y Pwyllgor y sefyllfa hon â Senedd yr Alban, a oedd yn cyflogi 501 o staff cyfwerth ag amser llawn yn ôl ei chyfrifon ar gyfer 2016-17.

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19, Medi 2017

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 20

<sup>30</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 149

<sup>31</sup> [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016-17](#)

**42.** Hoffai'r Pwyllgor weld lefelau staffio yn cael eu meincodi'n amlach yn erbyn sefydliadau eraill, gan gynnwys seneddau eraill, gan ystyried y staff craidd y mae'n rhaid eu darparu, waeth beth yw maint y ddeddfwrfa, fel timau diogelwch, a'r pwysau ychwanegol yn sgil y gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn deddfwrfa ddwyieithog.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid darparu'r adolygiad capasiti sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd fel papur i'r Pwyllgor. Ar y cam hwn, hoffai'r Pwyllgor weld manylion am y cynnydd yn nifer y staff dros y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys manylion am y gwasanaethau lle y mae nifer y staff wedi cynyddu a'r rhesymau am y cynnydd hwn.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid ystyried yr adolygiad capasiti ochr yn ochr ag ymarfer meincodi sy'n cynnwys seneddau eraill, gan gynnwys seneddau sydd â swyddogaeth ddwyieithog.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y Cynulliad barhau fel y mae yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19, er mwyn atal cynnydd ychwanegol mewn adnoddau staffio a rhoi cyfle i'r Prif Weithredwr a Chlerc newydd ystyried canlyniad yr adolygiad capasiti a sut y gellir defnyddio'r staff presennol yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r Cynulliad a'r Comisiwn.